



Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol

Nod Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol (KAVS) yw cydnabod grwpiau gwirfoddoli lleol rhagorol o bob cwr o'r DU.

Ewch ati nawr i wneud enwebiad yn:
kavs.dcms.gov.uk/gwneud-enwebiad

PWY SY'N GALLU CAEL EI ENWEBU AR GYFER Y WOBR?

Mae modd enwebu unrhyw grŵp sydd dan arweiniad gwirfoddolwyr ac sy'n cynnal gwaith yn ei gymuned leol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r grŵp fodloni'r meini prawf sylfaenol canlynol:

- mae'r grŵp wedi'i ffurfio o dri o bobl neu fwy
- mae'r grŵp wedi'i leoli yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw
- mae'r grŵp wedi bod yn gweithredu am o leiaf tair blynedd cyn yr enwebiad
- mae gan fwy na hanner y gwirfoddolwyr yn y grŵp yr hawl i breswyllo yn y DU
- mae'r grŵp dan arweiniad gwirfoddolwyr, nid staff cyflogedig
- mae'r grŵp yn rhoi budd penodol ac uniongyrchol i'r gymuned leol

BETH YW'R BUDDION?

- Cydnabyddiaeth Frenhinol
- Tystysgrif wedi'i llofnodi gan Ei Fawrhydi y Brenin
- Gwobr grisial
- Gwahoddiadau i'r Garddwestau Brenhinol
- Yr hawl i ddefnyddio arwyddlun Gwobr y Brenin ar draws gwefan a deunydd hyrwyddo'r grŵp



Department
for Culture,
Media & Sport

Gwefan: kavs.dcms.gov.uk

Cyfeiriad e-bost: kingsaward@dcms.gov.uk

1

A YW'R GRŴP YN GYMWYS?

Mae angen i grŵp fodloni meini prawf sylfaenol er mwyn bod yn gymwys. Mae rhagor o wybodaeth am y meini prawf llawn i'w gweld ar ein gwefan.

2

COFRESTRU AR WEFAN KAVS

Er mwyn gwneud enwebiad, mae'n rhaid i chi gofrestru ar wefan KAVS a chreu cyfrif. Y cyfan sydd ei angen arnoch er mwyn dechrau arni yw cyfeiriad e-bost.

3

LLENWI FFURFLEN ENWEBU

Mae'r ffurflen enwebu ar-lein yn gofyn am wybodaeth sylfaenol, megis gwaith y grŵp, manylion y buddiolwyr, a rôl y gwirfoddolwyr. Mae'n cymryd 5-10 munud i'w llenwi.

4

LLYTHYRAU O GEFNOGAETH

Bydd angen i chi gyflwyno dau lythyr gwahanol o gefnogaeth, yn ogystal â'ch ffurflen enwebu. Fel arfer, mae'r llythyrau hyn oddi wrth fuddiolwyr neu aelodau annibynnol o'r gymuned, ac maent yn ychwanegu cyd-destun pellach.

5

CWBLHAU A CHYFLWYNO

Cyflwynwch eich enwebiad erbyn 1 Rhagfyr. Os oes angen rhagor o arweiniad neu wybodaeth arnoch, cysylltwch â thîm KAVS.

NODWEDDION GRWPIAU SY'N CAEL EU GWOBRWYO

- **Maent dan arweiniad gwirfoddolwyr:** Y gwirfoddolwyr sydd wrth y llyw, a nhw sy'n pennu nodau'r grŵp ac sy'n adnabod cyfleoedd i ddatblygu.
- **Maent yn rhagorol, o'u cymharu â grwpiau tebyg:** Mae'r grŵp yn debygol o fod ymhlith y goreuon o'i fath yn y wlad.
- **Maent yn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn lleol:** Mae blaengaredd y grŵp hwn, ac ymdrechion ei wirfoddolwyr, wedi newid sefyllfa ei fuddiolwyr yn syfrdanol.
- **Maent yn cael eu rhedeg yn dda:** Mae safonau uchel ar waith o ran llywodraethu, rheoli arian a diogelu.
- **Maent yn uchel iawn eu parch yn lleol:** Mae'r grŵp yn uchel ei barch ymhlith y buddiolwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned leol.